

maer gan gael niweidiau trymion. Cludwyd ef ymaith yn ddiwed i gael ymgeledd feddygol... Bu farw y Saboth dilynol yn 65 mlynedd oed.'

Un arall a fyddai'n gwerthu llyfrau, yn ogystal a'r papur newydd *Yr Herald Cymraeg*, yn ein chwareli am flynyddoedd maith oedd William Williams, Harlech. Yn ôl adroddiad yn *Herald Cymraeg*, Hydref 27, 1876 bu wrthi hi am ddeng mlynedd ar hugain i gyd cyn i'w iechyd lesgau. Dywedir hefyd,

'Diau ddarfod i gannoedd gael eu cyflenwi a llenyddiaeth dda a fuasai yn gwbl ddieithr iddynt oni bai am ei ymdrechion ef, a gofidus gan lawer iawn o'i gydnabod ei absenoldeb. Heblaw cyflenwi Ffestiniog a'r amgylchoedd, ymwelai yn rheolaidd a Chorris, Bryneglwys, Llanhaearn, Porthmadog, &...'

Un arall a'i dilynodd ef oedd Elis Pierce, neu 'Elis o'r Nant' (1841-1912), fel y'i gelwir amlaf. Mae hi'n bur debyg mai ef oedd un o'r llyfrwerthwr teithiol enwocaf yn y rhan hon o'r wlad. Gŵr yn hannu o ardal Dolwyddelan oedd Elis ac wedi ei gloffi gan afiechyd pan oedd yn ei ardegau cynnar. Bu'n gyflogedig yn Chwarel Cwt y Bugail, plwyf Penmachno ar un adeg ac yn ohebydd lleol i *Faner ac Amserau Cymru* am flynyddoedd. Roedd yn awdur nifer o lyfrau a bu'n Gofriadur Arwest Llyn Geirionydd am sawl blwyddyn. Agorodd siop yn Willoughby House, Dolwyddelan a dechreuodd werthu llyfrau a mân nwyddau ynddi. Ceir peth o'i hanes gan fy nghyfaill Emrys Evans yn ei ddarlith gyhoeddedig 'Cwri Diddan Dŵr Oer' a draddodwyd i Gymdeithas y Fainc 'Sglodion yn 1992:

'I hybu'r fasnach yma, i gael rhywfaint mwy o fywoliaeth ohoni hi, mi fyddai Elis o'r Nant yn mynd o gwmpas y chwareli yr wythnos ar ôl y iâl i werthu llyfrau, cylchgronau, pethau pysgota ac yn y blaen. Cariai ei stoc mewn bag lledr ar ei gefn, a hwnnw wedi ei fachu ar bren a'i ganol ar ffurf U a'i phen i lawr, yn mynd dros ei ysgwydd.'

Credaf fod yr englyn canlynol o waith R. Owen 'Myfyrian' yn rhoi darlun cryno ohono inni:

Gwynebgoch gwirgoch gwyrngam, - bag a ffon
Bywiog a phert llygatfflam;
Bergoes yn peri byrgam
A'i goes dde yn gwneud K bob cam.

Bu Elis o'r Nant wrth y gwaith hwn am gyfnod hir a gwerthodd gannoedd o lyfrau i'r chwarelwyr dros bum mlynedd ar hugain olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif.

Gan fy mod wedi crwydro ychydig gyda rhai o'r llyfrwerthwyr teithiol a ddeuai o du allan i 'Stiniog, efallai mai da o beth a fyddai imi ddweud ychydig eiriau am un neu ddau o'r rhai lleol iawn rwan. Fe welwn o edrych ar yr hysbyseb uchod o Gyfarwyddiadur

Ar Werth

1. Anthropos, Bugail y Cwm, Cyfres 'Y Porth Prydfferth', 1913: £6.
2. Edwards, O. M., Tro Trwy'r Gogledd Tro i'r De, 1958: £6.
3. Hughes, D. R., Yma ac Acw, Llyfrau Pawb, Rhif 15, 1944: £4.
4. Jones, T. Llew, Anturiaethau Twm Sion Cati, 3 cyfrol: £7 yr un.
5. Williams, J. Ellis, Taith y Pererin, drama Pedair Act, 1934: £16.
6. Y Ganrif - W. E. Gladstone a'i Amserau, 1898: £12.

Cysyllter â Trefor Jones ar (01970) 617318

ROBERT R. HUGHES,

Bookseller and Bookbinder,

NEWS AGENT & GENERAL STATIONER,

144 HIGH STREET, BLAENAU FESTINIOG.

Reporter and Correspondent for the Banner ac Amserau Cymrau, Denbigh,
(Banner and Times of Wales, Denbigh).

Attends the Market Hall every Saturday, where a well-assorted Book Stall is kept, and visits all the Quarries.

Select Private Apartments.

TOYS AND PRESENTS IN GREAT VARIETY,
AT THE SHOP, 144 HIGH STREET.

Hysbys R. R. Hughes. O'r 'Merioneth Directory', 1883).

Masnach 1883 fod y llyfrwerthwr lleol, Robert R. Hughes, 'Treborthfab' yn ymweld â'r chwareli o bryd i'w gilydd er mwyn gwerthu llyfrau yno, ond ar wahân i hyn, ni fedraf ddweud mwy amdano fel 'gwerthwr llyfrau ar droed'.

Ychydig iawn a wn i am y gŵr nesaf hefyd, ond rwyf yn rhyw gredu, fel y dywedais mewn erthygl o'r blaen, ei fod yn un o hynafiaid y Bonwr Elvey McDonald, gŵr sy'n enedigol o Batagonia ac sy'n adnabyddus i ni'r Cymry. Yn ôl beth a ddywedir, gwaith yr hen MacDonald yn ystod tua chanol yr 1860au oedd gofalu am dwnnel bach Tanygrisiau i Reilffordd Ffestiniog, ond rhywdro cyn iddo ymfudo i'r Wladfa, bu'n gwerthu llyfrau yn ein chwareli a'r gymdogaeth lle trigai ynddi. Credaf mai Albanwr ydoedd yn wreiddiol ac wedi dysgu Cymraeg ar ôl dod i weithio a

byw yn ein hardal. Mae sylwadau canlynol o atgofion Robert Lewis Jones, Potter Avenue, Efrog Newydd, U.D.A., a ymddangosodd yn *Y Rhedegydd* am 1932 yn dadlennu rhywfaint amdano ef a'n testun:

"Wedi gorffen ohono gyda'r twnnel, aethai o gwmpas y chwarelau a'r ardal i werthu llyfrau. Nid oedd ei Gymraeg yn glasu'r lawer... Ei ddewis lyfr ef oedd 'Hanes y Ddaear a'r Creaduriaid byw', a thebyg i hyn y byddai'r hen frawd yn ynganu'r enw 'Hanes y daear a creaduriaid bwr, llifir da iawn, llifir da iawn, wir.' Mae'n fwy na thebyg fod rhai o'r llyfrau a werthodd ar hyd a lled yr ardal hyd heddiw'.

Heb os nac onibai, byddai ysgrif ar hanes llyfrwerthwyr teithiol Cymru a'r gwasanaeth rhagorol a wnaethont dros yr iaith Gymraeg a diwyllio gwerin wlad o gryn ddiddordeb i lawer ohonom, oni byddai?

Teithiau Newydd Y Gymdeithas

Ionawr 29, 2005

Y Llyfrgell Genedlaethol (Lle i tua 70)

- 10.45 Cyfarfod yn y Llyfrgell
- 11.00 Taith o amgylch i weld trysorau Cymru
- 12.00 Cinio yn y Llyfrgell
- 1.00 Ffilmiau ag apêl lleol
 - (i) Eisteddfod Genedlaethol yn Nolgellau, 1949
 - (ii) R. Williams Parry, Cae'r Gors, Cynan
 - (iii) Nefyn - disgyblion, cymeriadau a Lloyd George

5 Mawrth - Yr Wyddgrug (Lle i 15 yn unig)

- 10.45 Cyfarfod wrth y Llyfrgell gyferbyn â'r Swyddfa Bost, Yr Wyddgrug
- 11.00 Taith yn dilyn camre Daniel Owen
- 11.45 Ffilmiau prin iawn

Ebrill 9 - Diwrnod Agored Y Gymdeithas yng Ngheltica (Lle i 50)

- 10.00 - 4.p.m Clustnodir awr ar gyfer Cyfarfod Blynyddol:

Tua £15

Y cyntaf i'r felin... felly gadewch i'r Golygydd wybod

Enillwyr Raffl Haf Y Gymdeithas

Crochenwaith Porth Meirion: Mair Davies, Cae'r Llech, Llangefni LL77 7HD.

Cawg Crisial Cymreig: Alan Jobbins, 47 Wingfield Road, Eglwys Newydd, Caerdydd.

Casgliad o Gyhoeddiadau'r Llyfrgell Genedlaethol: Paul Jones, 43 Trefaenor, Comins Coch, Aberystwyth SY23 3UB.

Cloc ar Lechen: Philip Lloyd, 4 Bryn Noddfa, Yr Wyddgrug CH7 1YR.

Basged o Newyddau Cymru: Lena Pritchard Jones, 9 Wingfield Road, Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ.

Tôcyn llyfr gwerth £25: Helen O. Ellis, Ynys Tywyn, Minffordd, Penrhyndeudraeth LL28 6EP.

Tôcyn llyfr gwerth £20: Gwynedd Williams, 5 Bryn Crwn, Cwm-y-glo, Caernarfon, LL55 4DN.

Tanygrisiad Blwyddyn yng Nghymdeithas Bob Owen: L. Jones, 34 New Street, Caernarfon LL55 2PU.

Tanygrisiad Blwyddyn yng Nghymdeithas Bob Owen: Sandra Thomas, Yr Aelwyd, Blaenannerch, Aberteifi SA43 1RS.